NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Gofal anadlol newyddenedigol arbenigol i fabanod a gafodd eu geni'n gynamserol

3 Ebrill 2019

## *Cymorth anadlu i fabanod cynamserol: y gofal y dylech ei ddisgwyl*

Pan gaiff babanod eu geni'n gynnar, neu'n 'gynamserol' (cyn cyfnod o 37 wythnos o feichiogrwydd), yn aml bydd angen cymorth ychwanegol arnynt i anadlu. Mae hyn oherwydd efallai na fydd eu hysgyfaint wedi datblygu digon iddynt anadlu'n dda ar eu pen eu hunain. Ceir gwahanol ffyrdd o roi cymorth anadlu, yn dibynnu ar anghenion pob babi. Mae gofal a thriniaeth dda yn helpu eu hysgyfaint i ddatblygu'n dda er mwyn iddynt gryfhau a gadael yr ysbyty'n gynt.

Rydym am sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth i fabanod a'u teuluoedd drwy sicrhau'r canlynol:

- mae pob babi cynamserol yn cael yr un lefel uchel o ofal pan fydd angen cymorth anadlu arno
- mae'r timau gofal yn cynnwys ac yn cefnogi rhieni a gofalwyr ac yn eu trin fel partneriaid cyfartal yng ngofal eu plentyn
- mae'r timau gofal yn gwybod pa ddulliau cymorth anadlu a pha feddyginiaethau sy'n gweithio orau i fabanod a gafodd eu geni yn ystod cyfnodau gwahanol o feichiogrwydd, gan gynnwys babanod a gafodd eu geni'n gynnar iawn
- ni chaiff triniaethau nad ydynt wedi gweithio'n dda eu defnyddio mwyach

## *Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd*

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir, trafod y gwahanol opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Dylent hefyd wneud y canlynol:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr hyn sy'n digwydd gyda gofal eich plentyn a chymryd amser i ateb eich cwestiynau
- eich cefnogi i ryngweithio â'ch babi a dysgu i ofalu amdano



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- eich paratoi'n dda ar gyfer gadael yr ysbyty gyda'ch babi a dweud wrthych â phwy y dylech gysylltu os bydd angen help arnoch.

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dywedwch hynny wrth eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### *Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?*

Ceir rhagor o wybodaeth am syndrom trallod resbiradol babanod a gofal i fabanod cynamserol ar wefan y GIG.

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- Bliss – i fabanod a gaiff eu geni'n sâl neu'n gynamserol, 020 7378 1122
- Sands – elusen babanod marwanedig a marwolaethau newyddenedigol, 0808 164 3332
- Together for short lives, 0808 8088 100
- Twins trust, 0800 138 0509

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

Er mwyn rhannu profiad am ofal a gawsoch, cysylltwch â'ch tîm Gwarchod Iechyd lleol

Gwnaethom ysgrifennu'r canllaw hwn gyda rhieni a gofalwyr babanod cynamserol yr oedd angen cymorth anadlu arnynt, a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-3340-2



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.